WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gwasanaeth Gwastraff – Adolygiad dilynol – **Cyngor Dinas Casnewydd**

Blwyddyn archwilio: 2017–18

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 918A2018-19

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod Adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones, Allison Rees, Non Jenkins (rheolwr y rhaglen) o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â rhai o'n cynigion ar gyfer gwella, ond nid oes ganddo ddigon o gyfeiriad strategol o hyd i sicrhau canlyniadau gwell cynaliadwy.


Adroddiad cryno

Pam mae rheoli gwastraff yn bwysig 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â rhai o'n cynigion ar gyfer gwella, ond nid oes ganddo ddigon o gyfeiriad strategol o hyd i sicrhau canlyniadau gwell cynaliadwy 7

Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu ar gyfer ei wasanaeth gwastraff 7

Nid oes gan y Cyngor strategaeth wastraff hirdymor eto ar gyfer ei wasanaeth gwastraff 10

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r gwaith o reoli perfformiad ei gontractau gwastraff ac ailgylchu 13

Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer adolygu a monitro ei gynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella yn darparu digon o drosolwg 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb a chynllun gweithredu rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd mewn ymateb i gynigion gwasanaeth gwastraff Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella 16

# Adroddiad cryno

## Pam mae rheoli gwastraff yn bwysig

1 Mae rheoli gwastraff yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn 2011, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Newid Gydweithredol (CCP) i helpu i gyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy, er mwyn bodloni amcanion Tuag at Ddyfodol Diwastraff[1], sef Strategaeth rheoli gwastraff Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol:

- gosod targedau hirdymor ar gyfer ailgylchu/ailddefnyddio gwastraff trefol:
  - 52% erbyn 2012-13;
  - 58% erbyn 2015-16;
  - 64% erbyn 2019-20;
  - 70% erbyn 2024-25, pum mlynedd yn gynt na'r achos yn Lloegr ar hyn o bryd
- cyflwyno Cynllun Lwfansau Tirlenwi, sy'n cyfyngu faint o wastraff trefol pydradwy y gall cynghorau yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi
- cyflwyno cosbau ariannol posibl i'r rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio

2 Mae dau fesur perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff:

- canran y gwastraff trefol a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio;
- y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul unigolyn mewn cilogramau[1].

3 Ar wahân i 2014-15, mae 'cynyddu ailgylchu' wedi bod yn un o amcanion gwella Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) rhwng 2013-14 a 2017-18.

4 Fel y dangosir yn Arddangosyn 1, mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosydd statudol cenedlaethol ar gyfer canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu neu ei gompostio wedi gwella'n gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r perfformiad ailgylchu'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan yn gyson, ac o fewn y chwartel isaf.

- Gwnaeth perfformiad 2017-18 ostwng i 59.8% ar ôl perfformiad o 61.4% yn ystod 2016-17. (I roi hyn mewn cyd-destun, adroddodd 17 o'r 22 o gynghorau ostyngiad yn eu cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio o'u cymharu â 2016-17. Cyfuniad o ostyngiad yn y lludw gwaelod llosgydd (IBA) a adroddwyd fel lludw a ailgylchwyd a gwelliannau yng nghywirdeb adrodd ar bren sy'n bennaf gyfrifol am hyn[2].)
- Yn 2019-20, mae'r targed statudol ar gyfer canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio yn codi i 64%. Yn 2024-25, mae'r targed statudol yn codi i 70%.

[1] Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus newydd a gyflwynwyd yn 2018-19. Mae'r mesur newydd hwn yn disodli 'canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'

[2] Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru 2017-18, cyhoeddwyd 17 Hydref 2018 (Datganiad Ystadegol Cyntaf 94/2018)

Arddangosyn 1: Perfformiad ailgylchu gwastraff Cyngor Dinas Casnewydd[3].

| Blwyddyn | % y gwastraff trefol a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio gan y Cyngor | % y gwastraff trefol a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio dros Gymru gyfan | Safle yng Nghymru allan o 22 o gynghorau (y 1af yw'r gorau) | Y targed ar gyfer gwastraff trefol statudol a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2012-13 | 49.2 | 52.3 | 17eg | 52 |
| 2013-14 | 51.7 | 54.3 | 19eg | 52 |
| 2014-15 | 52.0 | 56.2 | 20ed | 52 |
| 2015-16 | 57.1 | 60.2 | 21ain | 58 |
| 2016-17 | 61.4 | 63.8 | 18ed | 58 |
| 2017-18 | 59.8 | 62.7 | 19eg | 58 |

Sut aethom ati i gynnal yr adolygiad

5 Ym mis Awst 2016, gwnaethom gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ein hadolygiad o'i wasanaeth gwastraff. Ar yr adeg honno, er bod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i gynyddu ailgylchu, daethom i'r casgliad nad yw wedi rheoli gwastraff yn ddigon strategol, ac nid yw wedi defnyddio ei drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad yn effeithiol er mwyn hybu gwelliant, ond mae wedi cymryd camau nawr i fynd i'r afael â hyn.

6 Gwnaethom gyflwyno pedwar cynnig ar gyfer gwella, a oedd yn ymwneud â llywodraethu, ymgysylltu a chyfathrebu, cynllun busnes hirdymor[4] a monitro contractau ailgylchu. Mae'r adroddiad llawn ar gael yma ar wefan y Cyngor.

7 Ym mis Medi 2018, gwnaethom gynnal adolygiad dilynol i asesu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r pedwar cynnig hynny ar gyfer gwella. Fel rhan o'r adolygiad dilynol, gwnaethom hefyd ystyried trefniadau'r Cyngor ei hun ar gyfer asesu ei gynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

8 Er mwyn hysbysu ein canfyddiadau, gwnaethom gyfweld detholiad o aelodau etholedig a swyddogion yng ngwasanaeth gwastraff y Cyngor. Gwnaethom hefyd adolygu dogfennau perthnasol ac arsyllu ar gyfarfod pwyllgor craffu.

[3] Ffynhonnell: StatsCymru, cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio y flwyddyn yn ôl awdurdod lleol.

[4] Mae'r Cyngor yn cyfeirio at ddatblygu cynllun busnes hirdymor fel datblygu strategaeth wastraff. Felly, mae'r adroddiad yn adlewyrchu hyn.

## Canfyddiad cyffredinol

9 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Cyngor wedi ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwelliant yn effeithiol er mwyn hwyluso'r canlyniadau gwell cynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff a nodwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2016?**

10 Yn gyffredinol, canfuwyd y canlynol: Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â rhai o'n cynigion ar gyfer gwella, ond nid oes ganddo ddigon o gyfeiriad strategol o hyd i sicrhau canlyniadau gwell cynaliadwy. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer ei wasanaeth gwastraff
- nid oes gan y Cyngor strategaeth wastraff hirdymor eto ar gyfer ei wasanaeth gwastraff
- mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r gwaith o reoli perfformiad ei gontractau gwastraff ac ailgylchu
- nid yw trefniadau'r Cyngor i adolygu a monitro ei gynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella yn darparu digon o drosolwg

11 Er mwyn galluogi canlyniadau gwell cynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff, mae angen i'r Cyngor gwblhau ei strategaeth wastraff.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â rhai o'n cynigion ar gyfer gwella, ond nid oes ganddo ddigon o gyfeiriad strategol o hyd i sicrhau canlyniadau gwell cynaliadwy

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwnaethom edrych ar y pedwar maes lle y gwnaethom gynigion ar gyfer gwella. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r cynigion hynny a'r casgliadau y daethom iddynt ynghylch i ba raddau yr oedd y rhain yn cael sylw.

### 2016: Cynnig ar gyfer gwella 1 – Llywodraethu

Dylai'r Cyngor ddefnyddio'i drefniadau llywodraethu'n briodol ac yn effeithiol trwy wneud y canlynol:

- gwneud defnydd gwell o'i drefniadau craffu i ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad amlach a mwy cywir o'i berfformiad, er mwyn ei alluogi i fonitro a rheoli perfformiad gwastraff ac ailgylchu'n effeithiol
- sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad gwastraff ac ailgylchu a adroddir i aelodau yn gywir ac yn gyson, a bod newidiadau i dargedau'n cael eu gwneud yn unol â phrotocolau cytunedig y Cyngor
- ystyried a yw'n briodol i aelod o'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch fod yn Ymddiriedolwr gyda Wastesavers
- sicrhau bod aelodau sydd hefyd yn aelodau o gyrff allanol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor, yn enwedig ynghylch datganiadau a gwrthdaro buddiannau

## 2018: Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu ar gyfer ei wasanaeth gwastraff

13 Gwnaeth y Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad ar gyfer 2016, a oedd yn nodi mai ychydig iawn o gyfleoedd oedd i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch herio'r Aelod Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Stryd.

14 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Trosolwg a Chraffu: Addas i'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018, mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r gwaith craffu, gyda phwyllgorau craffu ar berfformiad wedi disodli strwythur blaenorol pwyllgorau. Mae tri o'r pedwar pwyllgor newydd yn canolbwyntio ar berfformiad.

15 Yn yr adolygiad dilynol hwn o wasanaeth gwastraff y Cyngor, canfuom y canlynol.

## Mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth fwy cywir i aelodau am berfformiad bellach

16 Yn ein hadroddiad blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016, nodwyd camgymeriadau yn yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd, a oedd yn parhau i danseilio effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Roedd swyddogion yn defnyddio nifer o daenlenni i gofnodi data perfformiad. Roedd hyn yn cynyddu'r perygl o wallau dynol wrth allosod data ar gyfer adroddiadau perfformiad.

17 Yn ein hadolygiad dilynol yn 2018, nodir gwelliant sylweddol mewn adroddiadau ar berfformiad, yn dilyn cyflwyno system Rheoli Gwybodaeth (MI Hub) yn 2016 i gofnodi'r data perfformiad gan feysydd gwasanaeth. Mae'r system rheoli gwybodaeth yn cofnodi targedau meysydd gwasanaeth, a gall ddarparu data cyson ar y perfformiad presennol ar gyfer pob adroddiad ar berfformiad.

18 Fodd bynnag, gall cofnodi data'n anghywir arwain at gamgymeriadau o hyd. Gwnaethom nodi anghysondeb yn yr adroddiadau perfformiad pan roddwyd yr MI Hub ar waith i ddechrau. Gwnaeth y Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch dderbyn adolygiad cynllun gwasanaeth hanner blwyddyn ym mis Tachwedd 2016. Nid oedd y data ar berfformiad yn gywir oherwydd methiant i adlewyrchu perfformiad yr ail chwarter. Serch yr enghraifft hon, mae ein hadolygiad o'r adroddiadau perfformiad ar gyfer chwarter dau, chwarter tri a chwarter pedwar 2017-18 ar gyfer y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol a'r Cabinet, yn dangos adroddiadau cyson a chywir ar berfformiad.

19 Gwnaeth y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol dderbyn adroddiadau chwarterol ar berfformiad yn ystod 2017-18 o ran ailgylchu. Gwnaeth y Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch a oedd yn bodoli yn ystod ein hadolygiad blaenorol dderbyn adroddiadau o'r fath ddwywaith y flwyddyn yn unig.

20 Mae adroddiadau chwarterol ar berfformiad 2017-18 ar gyfer y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad - Lleoedd a Materion Corfforaethol yn fwy manwl bellach, a dylai aelodau allu asesu'r cynnydd a'r perfformiad yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn ogystal ag yn erbyn y targedau blynyddol.

21 Fodd bynnag, er i'r adroddiadau chwarterol gyrraedd y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad - Lleoedd a Materion Corfforaethol ar amser ar y cyfan yn ystod 2017-18, ni wnaeth y pwyllgor a Chabinet hwn dderbyn perfformiad chwarter tri 2017-18 tan fis Ebrill 2018 – ar ôl diwedd cyfnod chwarter pedwar. Ni wnaeth yr adroddiadau hyn roi cyfle amserol i aelodau herio a chraffu ar y perfformiad yn ystod y flwyddyn berthnasol yn effeithiol er mwyn hysbysu'r perfformiad ar gyfer y dyfodol yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull newydd o adrodd i bwyllgorau craffu ar ei berfformiad ar gyfer 2018-19. Mae pwyllgorau craffu'n derbyn dau adroddiad perfformiad y flwyddyn bellach: ar ôl chwe mis ac ar ddiwedd y flwyddyn.

## Mae angen egluro protocol cytunedig y Cyngor ar gyfer newid targedau

22 Nid yw'r Cyngor wedi cymryd camau clir i fynd i'r afael â'r ffaith y gallai targedau perfformiad gael eu newid heb drosolwg. Dywedodd swyddogion wrthym fod y

Cyngor wedi cytuno y gall gwasanaethau newid targedau yn ystod y flwyddyn, ond roedd teimladau cymysg ymhlith y rhai hynny a gyfwelwyd ynghylch beth yw'r newid mewn protocol targedau. Yn ystod 2017-18, newidiodd un targed a oedd yn ymwneud â gwastraff i fod yn fwy heriol. Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad, ac er bod y ddogfen hon yn egluro sut dylai gwasanaethau osod targedau, nid yw'n cynnwys y protocol ar gyfer newid targedau yn ystod y flwyddyn.

## Mae'r Cyngor wedi hysbysu aelodau o'u cyfrifoldebau o ran datgan achosion o wrthdaro buddiannau, ac wedi sicrhau nad yw ymddiriedolwyr Wastesavers y Cyngor hefyd yn aelodau o'r pwyllgor craffu perthnasol

23 Yn ein hadroddiad blaenorol, gwnaethom nodi'r diffyg eglurder ynghylch llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau aelodau ar gyrff a phartneriaethau allanol. Roedd gan ddau aelod etholedig o Gyngor Casnewydd hawliau pleidleisio ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Wastesavers. Roedd un o'r aelodau hyn hefyd ar bwyllgor craffu Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch y Cyngor. Er bod yr aelod hwn wedi datgan buddiant ar y ffurflen datganiad blynyddol, nid oedd yr aelod yn datgan unrhyw fuddiannau yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu. Yn ogystal, nid oedd yr aelod arall wedi datgan rôl Ymddiriedolwr ar y ffurflen datganiad blynyddol. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd gan drydydd aelod o'r Cyngor, a oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd, hawliau pleidleisio. Methodd yr aelod hwn hefyd i ddatgelu hyn ar y ffurflen datganiad blynyddol.

24 Gwnaeth yr aelod Cyngor a oedd yn sefyll ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Wastesavers a phwyllgor craffu perthnasol y Cyngor ymddiswyddo o'r Bwrdd. Gwnaeth y Cyngor llawn benodi gwahanol aelod ar 26 Gorffennaf 2016.

25 Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2018, penododd y Cyngor bedwar aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Wastesavers. Mae Cadeirydd presennol Bwrdd Wastesavers yn aelod Cabinet, ac mae ffurflen cofrestru buddiannau'r aelod yn datgan y rôl hon.

26 Ar adeg ein hadolygiad, canfuom fod tri aelod wedi llofnodi eu ffurflen cofrestru buddiannau cyn cael eu penodi i Fwrdd Wastesavers yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Nid oedd y tri aelod hyn wedi diweddaru'r gofrestr o fuddiannau aelodau ar ôl hyn i ddangos y penodiad hwn. Gwnaeth y pedwerydd aelod lofnodi'r ffurflen cofrestru buddiannau ar ôl y cyfarfod cyffredinol blynyddol, gan gynnwys ei rôl gyda Wastesavers.

27 Roedd yr aelodau etholedig wedi derbyn hyfforddiant gorfodol ar God Ymddygiad diwygiedig y Cyngor ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. Fel rhan o'r hyfforddiant, cyflwynodd y Cyngor gyfres o astudiaethau achos i'r aelodau eu hystyried. Roedd un o'r rhain yn ymwneud ag achos o wrthdaro buddiannau lle roedd yr aelod etholedig yn aelod o sefydliad allanol, a sut dylid datgan hynny. Gwnaeth yr hyfforddiant hefyd amlygu'r arweiniad a chymorth parhaus y mae'r Swyddog Monitro'n ei roi i aelodau. Fodd bynnag, nid oedd yn nodi'n eglur erbyn pryd y dylai aelodau gofrestru eu buddiannau.

### 2016: Cynigion ar gyfer Gwella 2 a 3 – Ymgysylltu a Chyfathrebu a'r Strategaeth Wastraff

Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- Datblygu cynllun ymgysylltu ac addysg cyfunol i gynyddu'r cyfraddau cyfranogi ym maes ailgylchu
- Datblygu a chytuno ar gynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn cyflawni targedau perfformiad gwastraff statudol yn y dyfodol, ac sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer monitro datblygiad a chyflawniad y cynllun

## 2018: Nid oedd gan y Cyngor strategaeth hirdymor eto ar gyfer ei wasanaeth gwastraff

28 Mae'r Cyfarwyddwr Lle a Phennaeth Gwasanaethau Stryd a Gweithrediadau'r Ddinas wedi bod mewn swydd am fwy na dwy flynedd bellach, gan ddarparu'r sefydlogrwydd a oedd ar goll yn y gwasanaeth yn 2016. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi llunio strategaeth wastraff eto sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn cyflawni targedau ailgylchu statudol yn y dyfodol mewn modd cynaliadwy. Mae Arddangosyn 2 yn dangos llinell amser o gamau gweithredu'r Cyngor ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad blaenorol ym mis Awst 2016, o ran datblygu strategaeth wastraff hirdymor.

Arddangosyn 2: llinell amser o weithgarwch y Cyngor tuag at ddatblygu strategaeth wastraff hirdymor

| Llinell amser |
|---|
| Awst 2016 – gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno adroddiad rheoli gwastraff i'r Cyngor a oedd yn cynnwys y pedwar cynnig ar gyfer gwella |
| Hydref 2016 – cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru yr adroddiad rheoli gwastraff i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch |
| Tachwedd 2016 – Cytunodd y Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch i sefydlu Grŵp Adolygu Polisi i ystyried opsiynau cyflenwi'r gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol, yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth a modelu gwahanol senarios o dan 'Rhaglen Newid Gydweithredol' Llywodraeth Cymru. |
| Rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017, penderfynodd y Cyngor ohirio adolygiad y Grŵp Adolygu Polisi tan ar ôl etholiadau'r llywodraeth leol ym mis Mai 2017 |
| Mai 2017 – etholiadau lleol |
| Mehefin 2017 – Briffiad aelod cabinet ar drosolwg o'r gwasanaeth gwastraff. Roedd y briffiad hwn yn cynnwys argymhelliad i roi casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos ar waith fel rhan o strategaeth wastraff. |

| Llinell amser |
| --- |
| Gorffennaf 2017 – sefydlu Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol, ac yn ei gyfarfod cyntaf, cytunwyd i ailsefydlu Grŵp Adolygu Polisi er mwyn ystyried senarios ar bob un o'r tri maes allweddol o ddatblygu strategaeth wastraff:<br>• Casgliadau gwastraff gweddilliol<br>• Canolfan gwastraff cartref ac ailgylchu<br>• Gwastraff masnachol |
| Medi – Hydref 2017 – gwnaeth y Grŵp Adolygu Polisi gyfarfod pum gwaith ac ystyried pum senario ar bob un o'r tri maes allweddol o ddatblygu strategaeth wastraff. |
| Tachwedd 2017 – y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu yn derbyn ac yn cefnogi argymhellion y Grŵp Adolygu Polisi. |
| 9 Mai 2018 – aelod Cabinet yn derbyn adroddiad ac argymhellion y Grŵp Adolygu Polisi. Gofynnwyd i'r aelod Cabinet nodi'r adroddiad ac ystyried y canfyddiadau wrth wneud penderfyniad ar y strategaeth wastraff. |
| Hydref 2018 – strategaeth wastraff ddrafft yn cael ei datblygu gan swyddogion, ond nid oedd yr amserlenni i'r aelod Cabinet dderbyn y strategaeth ddrafft i wneud penderfyniad arni yn glir ar adeg ein hadolygiad. |

29 Gwnaeth Rhaglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o wasanaeth gwastraff y Cyngor. Gwnaeth yr adolygiad hwn fodelu amrediad eang o senarios ar gyfer newidiadau i gasgliadau gwastraff gweddilliol y Cyngor, yn ogystal â newidiadau i'r gwastraff masnachol a'r ganolfan gwastraff cartref ac ailgylchu. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad mai casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos oedd yr opsiwn gorau o ran cyflawni arbedion ariannol posibl a gwella'r perfformiad ailgylchu.

30 Yn dilyn yr adolygiad, yn ystod mis Medi a mis Hydref 2017, gwnaeth Grŵp Adolygu Polisi Craffu ystyried pum gwahanol senario ar gyfer: casgliadau gwastraff gweddilliol, y ganolfan gwastraff cartref ac ailgylchu; a gwastraff masnachol. Mae adroddiad terfynol y Grŵp Adolygu Polisi[5] yn nodi mai ei gylch gorchwyl oedd adolygu'r pum senario er mwyn ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyfeiriad strategol y Cyngor ar gyfer gwastraff, gan arwain at ddatblygu strategaeth wastraff. Roedd pob un o'r senarios ar gyfer casgliadau gwastraff gweddilliol yn cynnwys casgliadau bob tair wythnos, sy'n newid o'r casgliadau bob pythefnos a oedd ar waith ar adeg y grŵp Adolygu. Mae adroddiad terfynol y grŵp yn nodi'r canlynol:

> 2.2.2 Nid oedd gan y Grŵp y cyfle i edrych ar opsiynau y tu allan i'r adroddiad hwn. Gofynnwyd iddynt roi sylwadau ar y senarios - sut byddent yn berthnasol i Gasnewydd, a fyddent yn effeithiol o fewn Casnewydd ac a fyddent yn arwain at y newid oedd ei angen yn y gwasanaeth i gyflawni'r targedau o ran ailgylchu.

[5] Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu – 16 Tachwedd 2017. Eitem 4 ar yr agenda. https://democracy.newport.gov.uk/documents/s10144/Waste%20Strategy%20Review%20Group%20-%20Final%20Report.pdf

31 Yn ystod eu trafodaethau, gwnaeth y grŵp, ynghyd â swyddogion, edrych ar y rhesymau pam nad oedd opsiynau eraill o fewn eu cwmpas, a hysbysodd y swyddogion y grŵp mai:

> casgliadau bob tair wythnos oedd y newid sylweddol nesaf i'r gwasanaeth, a byddai hyn yn effeithio ar y cyfraddau ailgylchu yn ddigon sylweddol i gyflawni'r targed o 70%[6].

32 Daeth y Grŵp Adolygu Polisi i'r casgliad nad oeddent yn gallu cefnogi'r newid i gasglu biniau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos, a gwrthodwyd y pum senario. Cydnabu'r Grŵp Adolygu Polisi na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i gyrraedd y targedau angenrheidiol ar gyfer ailgylchu heb gyflwyno casgliadau bob tair wythnos, a byddai'n gorfod talu'r dirwyon cysylltiedig gan Gynulliad Cymru. Mae hyn yn cynrychioli risg sylweddol i'r awdurdod yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf.[7]

33 Gwnaeth y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad ac argymhellion y Grŵp Adolygu Polisi ym mis Tachwedd 2017. Roedd yn cytuno ag argymhellion y Grŵp Adolygu Polisi i beidio â chefnogi cyflwyno casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos, ond yn cydnabod hefyd na fyddai cadw'r casgliadau gwastraff gweddilliol bob pythefnos yn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r targedau ailgylchu statudol yn y dyfodol.

34 Fodd bynnag, roedd y Grŵp Adolygu Polisi a'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu yn cefnogi'r argymhellion ar ddatblygu'r Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu a'r ddarpariaeth ar gyfer gwastraff masnachol yn y dyfodol.

35 Ar adeg ein gwaith maes ym mis Medi 2018, roedd y Cyfarwyddwr Lleoedd wrthi'n adolygu'r drafft terfynol o'r strategaeth wastraff, a oedd yn cynnwys opsiynau ar gyfer cadw casgliadau bob pythefnos a fyddai'n annog trigolion i gyfrannu'n fwy at ailgylchu. Yr opsiwn diwygiedig yn y drafft oedd cadw casgliadau gwastraff gweddilliol bob pythefnos, ond i leihau maint y cynhwysydd o 180 litr i naill ai 120 neu 140 litr. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn sylweddoli bod angen i'r aelod Cabinet gymeradwyo'r strategaeth a bod angen iddi fod ar waith yn barod ar gyfer mis Ebrill 2019, pan fydd y targed statudol ar gyfer canran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu/ailddefnyddio neu ei gompostio yn codi o 58% i 64%. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu cynllun ymgysylltu ac addysg cyfunol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn ailgylchu fel rhan o'i strategaeth wastraff.

[6] Paragraff 3.4.2: Adroddiad y Grŵp Adolygu ar y Strategaeth Wastraff

[7] Adroddiad y Grŵp Adolygu Polisi ar y Strategaeth Wastraff
https://democracy.newport.gov.uk/documents/s10144/Waste%20Strategy%20Review%20Group%20-%20Final%20Report.pdf

### 2016: Cynnig ar gyfer Gwella 4 – Monitro perfformiad contractau gwastraff ac ailgylchu

Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- sicrhau bod dulliau cadarn ar waith i fonitro perfformiad ei gontractau gwastraff ac ailgylchu.

# 2018: Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w waith o ran rheoli perfformiad ei gontractau gwastraff ac ailgylchu

36 Ym mis Awst 2016, gwnaethom nodi bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wella perfformiad gwastraff ac ailgylchu, ond bod angen gwella'r gwaith o reoli a monitro partneriaethau.

37 Dechreuodd contract newydd rhwng Wastesavers a'r Cyngor ym mis Ebrill 2016. Mae'n gontract wyth blynedd, gyda'r opsiwn i'w ehangu am ddwy flynedd arall. Mae'r contract newydd hwn yn cynnwys mesurau perfformiad. Gwnaeth Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Newid Gydweithredol helpu'r Cyngor i ddrafftio'r contract, gan awgrymu mesurau perfformiad perthnasol. Ychwanegodd y Cyngor at y rhain a heriwyd Wastesavers i sicrhau eu bod yn berthnasol. Yn 2016, sefydlodd Wastesavers a'r Cyngor strwythur a fformat yr adroddiadau ar gyfer y cyfarfodydd perfformiad contract misol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi rhoi mwy o sylw i ddata perfformiad a'r gwaith o'i ddadansoddi, sy'n fuddiol i'r ddwy ochr.

38 Mae trefniadau monitro a rheoli contract y Cyngor gyda Wastesavers wedi gwella'n sylweddol ers ein hadolygiad blaenorol.

- Mae'r trefniadau'n ffurfiol bellach, gyda chyfarfodydd perfformiad ac ariannol misol a chwarterol, yn ogystal ag adolygiadau gwasanaeth blynyddol
- Mae'r contract rhwng Wastesavers a'r Cyngor yn cynnwys y dangosyddion perfformiad gweithredol y mae angen i Wastesavers eu hadrodd i'r Cyngor
- Mae Wastesavers yn paratoi adroddiadau misol, sy'n cynnwys y dangosyddion perfformiad gweithredol hyn, fel nifer a natur y cwynion, achosion iechyd a diogelwch a thunelledd y deunyddiau ailgylchu unigol a gesglir

39 Fodd bynnag, mae rhai meysydd pellach sydd angen eu gwella:

- mae contract y Cyngor gyda Wastesavers yn nodi bod angen gosod targedau blynyddol ar gyfer pob dangosydd perfformiad, ond, nid yw'r adroddiadau misol a lunnir gan Wastesavers yn cynnwys y targedau cytunedig
- mae'r adroddiad misol yn cynnwys perfformiad y ddau fis blaenorol ar gyfer pob dangosydd perfformiad, ond heb y targedau, ni wyddys a yw Wastesavers yn cyflawni yn erbyn y perfformiad cytunedig

40 Serch hyn, mae'r trefniadau rheoli contract newydd hyn yn gwella'r gwaith o fonitro perfformiad, yn darparu rhagor o wybodaeth am berfformiad i'w dadansoddi ac yn

nodi problemau gweithredol yn gyflymach, er enghraifft, y nifer o gwynion i Wastesavers. Yn ystod haf 2018, cafodd Wastesavers broblemau gweithredol. Arweiniodd hyn at fwy o gwynion, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chasgliadau ailgylchu coll, casgliadau bwyd coll a chasgliadau â chymorth coll. Mae'r wybodaeth am berfformiad a gesglir nawr fel rhan o'r trefniadau rheoli contract yn caniatáu i Wastesavers a'r Cyngor weithio gyda'i gilydd i leihau nifer y cwynion, drwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd y cwynion hyn a nodi datrysiadau addas.

41 Mae gan y Cyngor ddau brif gontract gwastraff arall: Prosiect Gwyrdd[8] (llosgi gwastraff gweddilliol) a Chwm Yfory[9] (treulio gwastraff bwyd anaerobig). Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli a monitro contractau ar waith gyda staff gweithredol, uwch-reolwyr ac aelodau o'r cynghorau partner, ond nid ydym wedi profi effeithiolrwydd y trefniadau hyn fel rhan o'r adolygiad hwn.

## 2018: Nid yw trefniadau'r Cyngor i adolygu a monitro ei gynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella yn darparu digon o drosolwg

42 Er mwyn monitro'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella, sefydlodd Cyfarwyddwr Lleoedd y Cyngor Fwrdd Gwastraff yn 2016. Mae'r Bwrdd Gwastraff yn cynnwys y Cyfarwyddwr Lleoedd, Pennaeth Gwasanaethau Stryd a Gweithrediadau'r Ddinas, y Rheolwr Gwasanaeth, y partner busnes cyllidol ac aelodau eraill o'r tîm gwastraff, yn dibynnu ar y pwnc.

43 Ar 1 Rhagfyr 2016, gwnaeth y Bwrdd Gwastraff ystyried cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella. Roedd pedair adran: trefniadau llywodraethu; cynllun ymgysylltu a chyfathrebu; strategaeth wastraff a monitro contractau ailgylchu. Caiff pob cynnig ar gyfer gwella ei gefnogi gan nifer o gamau gweithredu, ac mae gan bob un ohonynt amserlen, swyddog arweiniol, arian/cyllideb (os yw'n berthnasol), dull o fesur canlyniadau (os yw'n berthnasol) a diweddariad ar gynnydd ar gyfer pob cam gweithredu. Fodd bynnag, nid oedd cynllun gweithredu diwygiedig ar gael pan wnaethpwyd ein gwaith maes.

44 Mae cyfarfodydd briffio'r Bwrdd Gwastraff a'r aelod Cabinet yn trafod cynigion unigol ar gyfer gwella, fel datblygu strategaeth wastraff a chynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw farn nac asesiad cyffredinol ar waith. Yn ogystal â hyn, nid yw unrhyw gynnydd a adroddir yn dilyn yr amserlenni gwreiddiol yn y cynllun gweithredu a ddatblygwyd ym mis Rhagfyr 2016. Oherwydd diffyg

[8] Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Dinas a Sir Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg

[9] Mae Cwm Yfory'n bartneriaeth rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddarparu datrysiad hirdymor i'r problemau gwastraff bwyd sy'n effeithio ar y cynghorau

trosolwg o'r holl gynllun gweithredu gwreiddiol, nid yw'r Cyngor yn gallu darparu asesiad cyffredinol ar gynnydd, cadarnhau a yw camau gweithredu'r Cyngor a gynigiwyd ym mis Rhagfyr 2016 yn parhau i fod yn berthnasol, nodi a oes angen cyflwyno camau gweithredu newydd na chadarnhau a ystyrir bod y cynigion ar gyfer gwella wedi eu 'cwblhau'.

45 Nid oes gan y Cyngor drefniadau systemaidd mwyach ar gyfer galluogi aelodau, yn enwedig y pwyllgor archwilio, gyda'u rôl llywodraethu a throsolwg, er mwyn olrhain y cynnydd o ran mynd i'r afael â chynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella ar lefel gwasanaeth. Gall aelodau cabinet unigol dderbyn diweddariad yng nghyfarfodydd briffio'r aelod cabinet, ac mae'r Cabinet yn derbyn diweddariadau ar y cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â'n Hasesiad Corfforaethol, ond mae prinder adroddiadau cynnydd ffurfiol i aelodau ar gynigion eraill ar gyfer gwella.

# Atodiad 1

## Ymateb a chynllun gweithredu rheolwyr Cyngor Dinas Casnewydd mewn ymateb i gynigion gwasanaeth gwastraff Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella

Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:** | | | | | | | |
| C1 | defnyddio'i drefniadau llywodraethu'n briodol ac yn effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>gwneud defnydd gwell o'i drefniadau craffu i ddarparu gwybodaeth a dadansoddiad amlach a mwy cywir o'i berfformiad, er mwyn ei alluogi i fonitro a rheoli perfformiad gwastraff ac ailgylchu'n effeithiol; | Mae'r pwyllgor craffu yn cael gwybodaeth gywir ac amserol i'w alluogi i herio perfformiad a chynnydd yn effeithiol. Caiff camau unioni eu nodi a'u datblygu. | ✓ | ✓ | Bydd Fframwaith Adrodd ar Reoli Perfformiad newydd, i'w gytuno gan y Cabinet, yn gwella gwelededd ac amlder adroddiadau data perfformiad i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu. | Fframwaith adrodd newydd wedi'i gytuno gan y Cabinet ym mis Medi 2016. | Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Busnes |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad gwastraff ac ailgylchu a adroddir i aelodau yn gywir ac yn gyson, a bod newidiadau i dargedau'n cael eu gwneud yn unol â phrotocolau cytunedig y Cyngor; | Mae'r aelodau yn herio ac yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gywir, a chaiff newidiadau i dargedau eu hystyried a'u cytuno'n briodol yn unol â phrotocol y Cyngor. | ✓ | ✓ | Mae'r system feddalwedd newydd sydd wedi'i rhoi ar waith yn lleihau'r perygl o wallau teipio.<br><br>Mae'r broses gosod targedau wedi'i hailadrodd i'r holl feysydd gwasanaeth a bydd yn parhau i gael ei throsglwyddo drwy gydol y broses cynllunio gwasanaeth.<br><br>Bydd gwaith yr adran perfformiad o ran gwirio targedau ar gyfer cynlluniau gwasanaeth a'r Cynllun Gwella yn cynyddu nawr bod y swydd wag wedi'i llenwi yn yr adran perfformiad. | System wedi'i rhoi ar waith Ebrill 2016<br><br>Chwefror 2016 ac yn barhaus<br><br>Gorffennaf – Cynllun Gwasanaeth<br>Tachwedd – Adolygiadau canol blwyddyn<br>Gorffennaf – Adolygiad diwedd blwyddyn | Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Busnes |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ystyried a yw'n briodol i aelod o'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Gwasanaethau Stryd, Adfywio a Diogelwch fod yn Ymddiriedolwr gyda Wastesavers; | Lleihau gwrthdaro buddiannau a sicrhau bod her ac ystyriaeth wrthrychol o broblemau sy'n ymwneud â Wastesavers. Mae'r aelodau yn deall eu | ✓ | ✓ | Nid yw'r aelod dan sylw yn Ymddiriedolwr ar gyfer Wastesavers mwyach – penodwyd rhywun newydd yn y Cyngor ym mis Gorffennaf er mwyn cael gwared ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. | 26 Gorffennaf 2016 | Swyddog Monitro |
| | sicrhau bod aelodau sydd hefyd yn aelodau o gyrff allanol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor, yn enwedig ynghylch datganiadau a gwrthdaro buddiannau. | cyfrifoldebau pan fyddant yn aelodau o gyrff allanol ac yn cadw at y Cod Ymddygiad, gan gynnwys datgan buddiannau fel y bo'n briodol. | ✓ | ✓ | Mae'r aelodau yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu, a chânt eu gwneud yn ymwybodol y gellir cysylltu â'r Swyddog Monitro am arweiniad a chymorth parhaus ar y materion hyn ar unrhyw adeg. Cytunodd y Cyngor ar god ymddygiad newydd yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol ar 17 Mai 2016, a bydd hyfforddiant ar y cod diwygiedig yn orfodol fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu ar ôl etholiad o fis Mai 2017 ymlaen. | Rhaglen ymsefydlu newydd yn barod ar gyfer mis Mai 2017 | Swyddog Monitro |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Datblygu cynllun ymgysylltu ac addysg cyfunol i gynyddu'r cyfraddau cyfranogi ym maes ailgylchu. | Mae gan y Cyngor gynllun clir sy'n nodi ei weithgareddau ymgysylltu ac addysg ar gyfer cynyddu'r cyfraddau cyfranogi er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro adnoddau a'u defnyddio'n effeithiol. | ✓ | ✓ | Bydd cynllun addysg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Strategaeth Wastraff (gweler isod) | Fel y nodir isod | Rheolwr Ailgylchu a Chynaliadwyedd |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C3 | Datblygu a chytuno ar gynllun busnes hirdymor sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn cyflawni targedau perfformiad gwastraff statudol yn y dyfodol, ac sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer monitro datblygiad a chyflawniad y cynllun. | Mae gan y Cyngor gynllun clir sy'n nodi ei gamau gweithredu i gyflawni targedau statudol y dyfodol, ac mae hwn yn nodi lefelau clir o atebolrwydd er mwyn hwyluso gwaith monitro effeithiol.<br>Caiff y cynnydd yn erbyn y cynllun ei herio a'i fonitro'n rheolaidd, a chaiff camau unioni eu nodi a'u cyflawni fel y bo angen. | ✓ | ✓ | Nod yr holl waith a gyflawnwyd o dan y Rhaglen Newid Gydweithredol oedd llunio cynlluniau busnes sy'n nodi sut gall Cyngor Dinas Casnewydd wella ei berfformiad ailgylchu er mwyn bod mewn sefyllfa i gyflawni'r targedau ailgylchu statudol a chyrraedd y nod o ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025. Mae'r broses honno'n dod i ben nawr, ac mae Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu creu drafft o'r canlyniadau a'r argymhellion a gynhwyswyd yn y cynllun busnes, cymeradwyo a gweithredu ei strategaeth ei hun ar sail | | Rheolwr Ailgylchu a Chynaliadwyedd |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | canfyddiadau gwaith y Rhaglen Newid Gydweithredol.<br>Mae'r amserlen arfaethedig fel a ganlyn:<br>• cyflwyniad cychwynnol i'r pwyllgor craffu ar newidiadau ailgylchu a chynigion ar gyfer y dyfodol<br>• creu grŵp adolygu ar gyfer y Polisi Gwastraff Craffu er mwyn cydweithio ar Strategaeth Wastraff newydd<br>• cyflwyno'r Strategaeth Wastraff i'r Cabinet i'w chymeradwyo<br>• gweithredu'r Strategaeth Wastraff a chychwyn ar gyfnod o fonitro perfformiad a chwblhau camau gweithredu parhaus. | Hydref 2016<br>Adroddiad ar argymhellion erbyn mis Chwefror 2016<br>Ebrill-Mai 2016<br>Mehefin 2016 | |

| Cyf | Cynnig ar gyfer gwella | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (✓) | Wedi ei dderbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C4 | Sicrhau bod dulliau cadarn ar waith i fonitro perfformiad ei gontractau gwastraff ac ailgylchu. | Mae'r perfformiad yn erbyn contractau gwastraff ac ailgylchu yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn sicrhau y cedwir at delerau ac amodau'r contract, a sicrhau y gellir nodi a chymryd camau unioni fel y bo angen. | ✓ | | Bydd Fframwaith Adrodd ar Reoli Perfformiad newydd, i'w gytuno gan y Cabinet, yn gwella gwelededd ac amlder adroddiadau data perfformiad i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu.<br><br>Bydd data cenedlaethol yn cael ei gynnwys ym meini prawf asesu amcanion y Cynllun Gwella.<br><br>Mae meddalwedd newydd wedi'i rhoi ar waith, sy'n gwneud y data'n fwy hygyrch i uwch-reolwyr. | Fframwaith adrodd newydd wedi'i gytuno gan y Cabinet ym mis Medi 2016.<br><br>I'w roi ar waith wrth fonitro chwarter 2, adrodd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2016<br><br>Wedi ei roi ar waith<br>Ebrill 2016 | Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Busnes |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru